# Cymeradwyo molysgiaid dwygragennog byw a chynhyrchion pysgodfeydd

Gwybodaeth reoleiddio am gymeradwyo cynhyrchion molysgiaid dwygragennog a physgodfeydd i fusnesau.

## Sefydliadau cymeradwy

Rydym ni'n cyhoeddi manylion pob sefydliad cymeradwy yn y Deyrnas Unedig (DU)

## Cynhyrchion pysgodfeydd

Mae'n rhaid cymeradwyo safle sy'n trin neu'n prosesu cynhyrchion pysgodfeydd a molysgiaid dwygragennog byw o dan Reoliad yr Undeb Ewropeaidd 853/2004, o dan gyfraith yr Undeb Ewropeaidd a ddargedwir (*retained EU law*).

Caiff cynhyrchion pysgodfeydd eu diffinio fel pob anifail d?r môr neu dd?r croyw, p'un a ydynt yn wyllt neu wedi'u ffermio. Mae hyn yn cynnwys holl ffurfiau, darnau a chynhyrchion bwytadwy yr anifeiliaid hyn.

Dyma'r anifeiliaid d?r môr a d?r croyw nad ydynt yn gynhyrchion pysgodfeydd:

- molysgiaid dwygragennog byw
- echinodermau byw
- tiwnigogion byw
- gastropodau morol byw pob mamal
- ymlusgiaid
- brogaod

## Molysgiaid dwygragennog

Y diffiniad o folysgiaid dwygragennog yw molysgiaid dwygragennog sy'n bwydo drwy hidlo.

Mae'r rheoliadau yn cymhwyso'r un amodau i:

- diwnigogion
- echinodermau
- gastropodau morol
- gosod meini prawf ar gyfer cynhyrchu
- cynaeafu
- ailosod
- cludo a dosbarthu.

## Canllawiau ar gyfer y diwydiant bwyd

I gael rhagor o wybodaeth, darllenwch ein Canllawiau Arfer Hylendid Da ar gyfer y Diwydiant bwyd: Proseswyr Pysgod Gwyn a gyflenwir gan y Llyfrfa. (Saesneg yn unig)

## Manylion cysylltu

ffôn: 01904 232060
e-bost: approvals@food.gov.uk
ffôn: 028 90 417700
e-bost: executive.support@food.gov.uk
ffôn: 029 2067 8957
e-bost: lasupportwales@food.gov.uk